# Tasg 1

(Estynnol, sbardun 3)

**TASGAU DARLLEN A DEALL**

**Tasg 1**

Dewiswch yr ateb cywir bob tro.

**1. Beth sydd wedi digwydd i siopau'r stryd fawr yn ddiweddar?**

a) Mae mwy o siopau wedi agor.
b) Mae siopau'n gwerthu mwy o bethau gwahanol.
c) Mae llawer o siopau wedi cau.

**2. Pam mae siopau elusen yn beth da?**

a) Maen nhw'n agor yn hwyr y nos.
b) Maen nhw'n dda i'r amgylchedd.
c) Maen nhw'n dda i fyd ffasiwn.

**3. Pa un o'r brawddegau hyn sy'n wir am ffasiwn?**

a) Mae dillad hen ffasiwn yn gallu dod yn ffasiynol eto.
b) Dydy dillad hen ffasiwn byth yn dod yn ffasiynol eto.
c) Dydy ffasiwn byth yn newid.

**4. Pa ddillad sy'n fargeinion arbennig o dda?**

a) dillad gwlân
b) dillad cotwm
c) dillad lledr

**5. Pam mae myfyrwyr yn hoffi siopau elusen?**

a) Achos eu bod nhw'n prynu gormod o ddillad.
b) Achos eu bod nhw'n gallu cael llawer o ddillad am ychydig o arian.
c) Achos eu bod nhw'n gallu ailgylchu eu dillad eu hunain.

**6. Beth sydd ei angen wrth chwilio am ddillad mewn siop elusen, yn ôl Ffion?**

a) arian ac amser
b) amynedd ac amser
c) arian ac amynedd

**Tasg 2**

1. Pam mae siopau elusen yn boblogaidd? (*y paragraff cyntaf*)
2. Pam mae siopau elusen yn dda i'r amgylchedd?
3. Beth yw anfantais prynu dillad mewn siop elusen? (*pwyntiau bwled*)
4. Pa **ddau** fath o ddillad mae Ffion yn eu prynu mewn siopau elusen?
5. Beth yw barn mam Ffion am bobl ifanc a dillad?

**Tasg 3**

Chwiliwch am enghreifftiau o'r canlynol yn y darn:

- defnyddio rhifau wrth gyflwyno gwybodaeth. Pam mae hyn yn effeithiol?
- berfau gorchmynnol
- iaith lai ffurfiol. Ym mha ran o'r darn y gwelir hyn?
- defnydd o ddelweddau.